Rheolwr Cyfathrebu – Cymru

- **Cyflog:** Ystod cyflog cenedlaethol SEO / SIO
- **Nifer y swyddi sydd ar gael:** 1
- **Manylion y rhestr wrth gefn:** 12 Mis
- **Ardal:** Cenedlaethol
- **Dinas/Tref:** Caerdydd,
- **Adeilad/Safle:** TŶ CHURCHILL, CAERDYDD, CF10 2HH
- **Gradd:** SIO / SEO
- **Math o Swydd:** Parhaol
- **Patrwm Gweithio:** Amser Llawn
- **Math o Swydd:** Cyfathrebu / Marchnata

Disgrifiad swydd

Rydym yn chwilio am weithiwr cyfathrebu proffesiynol profiadol, ymroddedig a rhagweithiol i ymuno â thîm cyfathrebu llwyddiannus y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi (GCPEF) yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn helpu i arwain y gwaith cyfathrebu ar gyfer y GCPEF yng Nghymru ac yn cyflawni strategaeth gyfathrebu uchelgeisiol i ddiogelu a hyrwyddo nodau a gwerthoedd Cymru ymysg staff a rhanddeiliaid allweddol.

Rydym yn chwilio am weithiwr cyfathrebu proffesiynol brwdfrydig sydd â phrofiad o weithio ym maes cyfathrebu ar ran sefydliadau mawr neu ar brosiectau cymhleth. Mae'r swydd yn rhoi sylw arbennig i gyfathrebu ac ymgysylltu mewnol yn ogystal ag ymgyrchoedd, rheoli rhanddeiliaid, a chyfathrebu digidol a gweithredol.

Mae'r GCPEF yng Nghymru yn gyfrifol am reoli'n uniongyrchol a rheoli contractau yr holl wasanaethau carchardai a phrawf sy'n cael eu darparu ledled Cymru. Bydd y swydd yn darparu cymorth cyfathrebu ar gyfer yr holl swyddogaethau hyn. Bydd yn cydnabod natur unigryw Cymru, gan ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ac amrywiaeth eang o arweinwyr cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru i greu trefniadau partneriaeth cryf a chadarnhaol. Bydd y swydd hefyd yn cefnogi ac yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant.

Mae'r swydd hon yn rhan o dîm Cyfathrebu'r GCPEF a bydd deiliad y swydd yn adrodd yn uniongyrchol i Bennaeth Cyfathrebu Cymru.

Prif gyfrifoldebau:

- Cefnogi cyfathrebiadau strategol, mewnol a gweithredol ar gyfer y GCPEF yng Nghymru a gweithio'n agos gyda Swyddfa'r Wasg yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar holl gyfryngau allanol y gwasanaeth.
- Cefnogi'r gwaith o gyflawni Strategaeth Gyfathrebu Partneriaid Lleol Cymru i sicrhau bod cerrig milltir allweddol yn cael eu cyflawni.
- Cefnogi'r gwaith o ddatblygu a gweithredu'r GCPEF yng Nghymru fel brand ledled Cymru.
- Cefnogi'r gwaith o ddatblygu ymgyrch gyfathrebu ragweithiol, sy'n ennyn diddordeb ac sy'n cael ei harwain gan ddealltwriaeth, i hyrwyddo'r gwaith cadarnhaol sy'n cael ei wneud ledled Cymru ar gyfer cynulleidfaoedd mewnol ac allanol. Bydd yr ymgyrch hon yn ysgogi staff ac yn dathlu llwyddiant o fewn yr asiantaeth.
- Adeiladu a meithrin rhwydwaith o arweinwyr cyfathrebu lleol ar draws safleoedd yng Nghymru i sicrhau bod ein dulliau cyfathrebu yn effeithiol, yn amserol ac yn berthnasol i staff a throseddwyr.
- Helpu i reoli a datblygu ein sianeli allweddol gan gynnwys Cylchlythyr Staff Cymru a Bwletin Cymru.
- Bod yn ddirprwy dibynadwy i Bennaeth Cyfathrebu Cymru ar ran y GCPEF a chwarae rhan ragweithiol i helpu i gefnogi a siapio cyfeiriad tîm cyfathrebu ehangach y GCPEF a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i greu diwylliant cadarnhaol a chynhwysol.
- Meithrin perthynas gref ac adeiladol gydag uwch arweinwyr ledled Cymru a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a dod yn uwch gynghorydd dibynadwy ar gyfathrebu yng Nghymru, gan ddatblygu gwybodaeth fanwl am bolisïau allweddol, cyfleoedd i rhanddeiliaid a risgiau.
- Gweithio gyda thîm digidol ac ymgyrchoedd y GCPEF er mwyn datblygu darpariaeth gyson o gynnwys Cymreig ar draws sianeli mewnol ac allanol y GCPEF a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.
- Yn fodlon teithio'n rheolaidd i safleoedd y GCPEF ledled Cymru.

Cymwyseddau a Chryfderau

Byddwn ni'n eich asesu mewn perthynas â'r ymddygiadau hyn yn ystod y broses ddethol.

- **Cyfathrebu a Dylanwadu:** Cyfleu pwrpas a chyfeiriad yn glir, yn gywir ac yn frwdfrydig. Parchu anghenion, ymatebion a barn pobl eraill.
- **Arweinyddiaeth:** Dangos balchder ac angerdd dros wasanaeth cyhoeddus. Creu a chynnwys pobl eraill yn y gwaith o wireddu gweledigaeth ar y cyd. Gwerthfawrogi gwahaniaeth, amrywiaeth a chynhwysiant, gan sicrhau tegwch a chyfleoedd i bawb.
- **Gweithio gyda'n Gilydd:** Ffurfio perthnasoedd a phartneriaethau effeithiol gyda phobl fewnol ac allanol o amrywiaeth o gefndiroedd amrywiol, gan rannu gwybodaeth, adnoddau a chefnogaeth.
- **Newid a Gwella:** Chwilio am gyfleoedd i greu newid effeithiol ac awgrymu syniadau arloesol ar gyfer gwella. Adolygu ffyrdd o weithio, gan gynnwys gofyn am adborth a rhoi adborth.

Manylion y broses ddethol

Mae'r swydd hon yn defnyddio Proffiliau Llwyddiant, a bydd yn asesu eich Ymddygiadau a'ch Profiad.

Dyma sy'n rhoi'r cyfle gorau posibl i ni ddod o hyd i'r unigolyn cywir ar gyfer y swydd, ac i wella perfformiad, amrywiaeth a chynhwysiant.

Fel rhan o'r broses ymgeisio, gofynnir i chi gyflwyno CV a Datganiad Addasrwydd nad yw'n fwy na 500 gair.

Cofiwch y dylai eich Datganiad Addasrwydd egluro'n gryno pam rydych yn gwneud cais am y swydd hon, gan ddangos sut mae gennych y profiad sydd ei angen i gyflawni'r swydd a nodir yn y disgrifiad swydd.

Bydd ceisiadau'n cael eu didoli ar sail y Datganiad Addasrwydd. Ni fydd CVs yn cael eu marcio ond byddant yn cefnogi eich cais.

Bydd yr ymgeiswyr sydd ar y rhestr fer yn cael eu gwahodd i gyfweliad a fydd yn gyfuniad o gwestiynau sy'n seiliedig ar Gryfderau (dim angen paratoi) a chwestiynau sy'n seiliedig ar Ymddygiad. Bydd ymarfer bwrdd gwaith hefyd yn cael ei gynnal (dim angen paratoi).